Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Cynllun Rheoli Cyrchfan

# Castell-nedd Port Talbot

**2023 – 2028**



CASTELL-NEDD
PORT TALBOT
Calon Ddramatig Cymru

# Cynnwys


Crynodeb – y CRhC ar un Dudalen

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | Cyflwyniad | Tudalen 4 |
| **2.0** | Gweledigaeth | Tudalen 6 |
| **3.0** | Castell-nedd Port Talbot Heddiw | Tudalen 8 |
| **4.0** | Dadansoddiad SWOT | Tudalen 15 |
| **5.0** | Symud Ymlaen – Ein Blaenoriaethau | Tudalen 19 |
| **6.0** | Cyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfan | Tudalen 22 |
| **7.0** | Cynllun Gweithredu 2023 – 2028 | Tudalen 24 |




# Crynodeb – y CRhC ar un Dudalen

## CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Twf Hirdymor:** Mae'r economi ymwelwyr wedi tyfu mwy nag 14% rhwng 2010 a 2019.

**Swyddi:** Mwy na 1,600 o swyddi CALI (2019).

**Ymweliadau:** Mwy nag 1.5 m o ymweliadau sy'n cynrychioli mwy na 2m o ddiwrnodau a nosweithiau ymwelwyr (2019).

**Ymwelwyr:** Ymwelwyr dydd sydd i gyfrif am 68% o'r ymweliadau Ymwelwyr sy'n aros sydd i gyfrif am 16% o'r ymweliadau.

**Gwariant gan Ymwelwyr:** Mae ymwelwyr sy'n aros yn gwario £395.97 yr ymweliad tra bo ymwelwyr dydd yn gwario £25.81 yr ymweliad ar gyfartaledd.

**Cynnyrch:** Mae'r cyfuniad o'r arfordir ac ardaloedd gwledig yn sylfaen gref ar gyfer cynnig mathau o weithgaredd.

## BETH GLYWSON NI

**Cryfderau:**
- Tirwedd naturiol amrywiol.
- Parc Coedwig Afan a Gwlad y Sgydau yn ganolfannau ymwelwyr allweddol.
- Hunaniaeth newydd 'Calon Ddramatig Cymru'.
- Llwyddiannau o ran sicrhau cyllid yn ddiweddar.

**Gwendidau:**
- Diffyg llety o ansawdd uchel.
- Cystadleuaeth gerllaw (Gŵyr a Bannau Brycheiniog).
- Adnoddau cyfyngedig ar gyfer y swyddogaeth dwristiaeth.
- Canfyddiadau o'r ardal o'r tu allan.

**Cyfleoedd:**
- Buddsoddiad piblinell mewn prosiectau catalydd.
- Potensial i ddatblygu'r arlwy o ran treftadaeth a diwylliant.
- Creu rhaglen ddigwyddiadau fywiog
- Integreiddio cymunedau yn y cynlluniau rheoli ymwelwyr.
- Datblygu'r cynnig ar yr arfordir.

**Bygythiadau:**
- Ffactorau economaidd allanol.
- Newidiadau rheoleiddio yn y sector.
- Twf yn y niferoedd sy'n cymryd gwyliau tramor.
- Problemau staffio a recriwtio yn y sector twristiaeth.

## TUEDDIADAU'R FARCHNAD

**Goroesiad, adferiad a thwf y sector**

**Y galw am brofiadau awyr agored**

**Lleoliaeth a phrofiadau dilys**

**Antur y gellir ei haddasu**

**Twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol**

**Defnydd cynyddol o dechnoleg**

## GWELEDIGAETH

Mae Castell-nedd Port Talbot yn gyrchfan fywiog i'w dewis ar hyd y flwyddyn lle gall ymwelwyr aros a mwynhau profiadau dilys o ansawdd uchel. Mae hefyd yn borth i ardal ehangach de Cymru.

Yn dilyn yr adferiad wedi'r pandemig, mae twristiaeth bellach yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.

Mae brand Calon Ddramatig Cymru wedi ennill ei blwyf ym marchnad y Deyrnas Unedig ac mae twf blynyddol economi ymwelwyr y gyrchfan 1% yn uwch na thwf cyfartalog ei chymdogion.

## BLAENORIAETHAU STRATEGOL – CASTELL-NEDD PORT TALBOT: CYRCHFAN AMGEN

**1. Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol**

**2. Trawsnewid ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o'r ardal**

**3. Cefnogi busnesau a gweithlu llewyrchus**

**4. Cymunedau bywiog**

**5. Hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy**

**6. Gweithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth**



# Cyflwyniad

# 01

# 1.0 Cyflwyniad

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) Castell-nedd Port Talbot yn cynnig glasbrint o sut mae'r sir yn bwriadu cynnal, tyfu a rheoli ei heconomi ymwelwyr rhwng 2023 a 2028. Mae'r CRhC yn ddatganiad a rennir o'r bwriad i ddatblygu twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn cynnig profiadau eithriadol a thrawsnewid canfyddiad pobl o'n hardal amrywiol, hynod a gwahanol. Mae'r Cynllun yn cydnabod gwerth economaidd a chymdeithasol twristiaeth, yn disgrifio rôl y gwahanol randdeiliaid ac yn amlygu camau blaenoriaeth sy'n adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael.

Er gwaetha'r heriau gwirioneddol a brofwyd yn sgîl pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw, mae'r economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot yn wynebu cyfnod cyffrous. Fel y nodir yn y cynllun hwn, buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat fydd y sylfaen ar gyfer adferiad y sector yn dilyn y pandemig, gan ysgogi a llywio twf yn y dyfodol, helpu i ddatblygu gwydnwch a chynyddu ymwybyddiaeth o Gastell-nedd Port Talbot fel cyrchfan 'amgen' o safon i dwristiaid. Mae'r economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot ar fin cael ei thrawsnewid, wedi'i sbarduno gan uchelgais ysbrydoledig a buddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd menter newydd Cyrchfan Antur Wildfox, gwerth £300m, a sbardunir gan y sector preifat ynghyd â llwyddiant cronfa 'Ffyniant Bro' y Cyngor a'r cyllid a ymrwymwyd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Cyngor yn ddatblygiadau trawsnewidiol a fydd yn hybu'r arlwy i ymwelwyr. Un o'r pethau y bydd y CRhC yn canolbwyntio arno yw cefnogi cyflawni'r prosiectau catalydd hyn yn effeithiol mewn ffordd sy'n fanteisiol i holl gymunedau Castell-nedd Port Talbot.

Mae bwrdeistref sirol Castell-nedd Port yn wynebu heriau hirsefydlog. Fodd bynnag, wrth i ni adeiladu ar ein sylfaen o asedau unigryw, o dan arweiniad y Fwrdeistref Sirol, mae partneriaeth newydd yn dod i'r amlwg i sbarduno twf cyfrifol, cynhwysol yr economi ymwelwyr. O ganlyniad, mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cyfleu blaenoriaethau'r economi ymwelwyr ac yn adlewyrchu anghenion a chyfleoedd yn y sector.

Bwriedir i'r CRhC fod yn ddogfen fyw a gaiff ei hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ymateb i gyfleoedd newydd, yr amgylchedd gweithredu ac ystyriaethau'r farchnad.



# Gweledigaeth

# 02

# 2.0 Gweledigaeth

## Disgrifir isod ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol twristiaeth yn y fwrdeistref yn ystod y 5 mlynedd nesaf:

Mae Castell-nedd Port Talbot yn gyrchfan fywiog i'w dewis ar hyd y flwyddyn lle gall ymwelwyr aros a mwynhau profiadau dilys o ansawdd uchel. Mae hefyd yn borth i ardal ehangach de Cymru. Yn dilyn yr adferiad wedi'r pandemig, mae twristiaeth bellach yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol. Mae brand Calon Ddramatig Cymru wedi ennill ei blwyf ym marchnad y Deyrnas Unedig ac mae twf blynyddol economi ymwelwyr y gyrchfan 1% yn uwch na thwf cyfartalog ei chymdogion.

Ochr yn ochr â'r weledigaeth, bydd tair egwyddor drawsbynciol yn fframio'r Cynllun Rheoli Cyrchfan:

- **Twristiaeth gyfrifol**: Cyfrannu at sir ag allyriadau sero-net er budd ein hamgylchedd, ein pobl a'n ffyniant.
- **Twf cynhwysol**: Sicrhau twristiaeth sy'n fanteisiol i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- **Cydweithredu a phartneriaethau**: Creu cynllun gweithredu cyffredin rhwng partneriaid o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus (gan gynnwys Croeso Cymru) a'n cymunedau.

**Byddwn yn gyrchfan:**

- sy'n amlwg yn wahanol i rai eraill yng Nghymru, ac yn darparu amrywiaeth da a safonol o lety, mannau i ymweld â nhw a phethau i'w gwneud.
- sy'n gwneud yn fawr o'n lleoliad ar brif lwybrau trafnidiaeth Cymru lle gall ymwelwyr aros ac archwilio ardal ehangach de Cymru yn hwylus.
- sy'n falch o'r stori unigryw a'r cysylltiadau diwylliannol sydd gennym yng Nghymru a'r tu hwnt sy'n taro tant gyda phreswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.
- sy'n cynnig profiadau neilltuol yn seiliedig ar ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog a'n harfordir a'n cefn gwlad godidog, gan gyflawni addewid '**Calon Ddramatig Cymru**' yn llawn.
- sy'n estyn croeso cynnes i ymwelwyr ac yn parchu eu hanghenion unigol.



# Castell-nedd Port Talbot Heddiw

# 03

# 3.0 Castell-nedd Port Talbot Heddiw

## Ffeithiau a Ffigurau

Amgylchedd naturiol yr ardal, ynghyd ag elfennau cryf o dreftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol, yw prif gryfderau'r Fwrdeistref Sirol fel cyrchfan i ymwelwyr. Gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn y seilwaith twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae'r ardal wedi datblygu fel cyrchfan ac mae ei safle yn y farchnad a'r cynnyrch a gynigir ganddi yn dal i dyfu.

O ran yr economi ymwelwyr, gwelir tuedd waelodol hirdymor gadarnhaol ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. O edrych ar y cyfnod deng mlynedd rhwng 2010 a 2019, mae'r diwrnodau ymwelwyr a niferoedd yr ymwelwyr (cyfuniad o deithiau dydd ac arosiadau dros nos) fel ei gilydd wedi cynyddu mwy nag 11% ac mae gwariant uniongyrchol ac effaith economaidd ill dau wedi cynyddu mwy nag 14%. Mae'r ddelwedd isod yn amlygu dangosyddion perfformiad allweddol y sector yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2019, sef y flwyddyn fwyaf diweddar cyn Covid-19.

### ECONOMI YMWELWYR Castell-nedd Port Talbot 2019*

Cyfanswm o **1.51 miliwn** o **Ymweliadau Twristiaeth,** sy'n cyfateb i 10.3% o'r holl ymweliadau twristiaeth â De-orllewin Cymru

Cynhyrchwyd cyfanswm o **£129.3 million** yn yr economi leol trwy wariant ymwelwyr a busnesau twristiaeth

Cafwyd **1.15 miliwn o ymweliadau twristiaeth** gan **Ymwelwyr Dydd** â'r Fwrdeistref Sirol

Mae **ymwelwyr sy'n aros** yn cynhyrchu **cyfanswm effaith economaidd o £85.59 miliwn** ar gyfer busnesau a chymunedau Castell-nedd Port Talbot

Bu ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol yn cynnal **1,626 o swyddi gweithredol cyfwerth ag amser llawn**

Rhwng 2010 a 2019, **cododd nifer yr Ymwelwyr 11.1%**

**Cyfanswm stoc gwelyau Castell-nedd Port Talbot yw 2,887 o welyau** Rhennir hyn yn 1,435 o welyau â gwasanaethau, 1,028 heb wasanaethau, a 424 o leoedd gwersylla a charafanio

Cynhyrchodd Ymweliadau Diwrnod **£43.72 miliwn** ar gyfer economi leol Castell-nedd Port Talbot yn 2019

**Cynyddodd yr effaith economaidd +14.8%** rhwng 2010 a 2019

**2.07 miliwn o Ddiwrnodau a Nosweithiau Ymwelwyr** wedi'u cynhyrchu gan ymwelwyr yn 2019

Gwnaed **0.36 miliwn o ymweliadau gan ymwelwyr** oedd yn aros **yng Nghastell-nedd Port Talbot** fel rhan o wyliau neu arhosiad byr, gan gynhyrchu **0.92 miliwn o nosweithiau** mewn llety ar draws y Fwrdeistref Sirol

* Y flwyddyn olaf lawn cyn Covid-19

Ffynhonnell: STEAM a CBSCNPT

### Effaith Covid ar nifer yr ymweliadau a'u gwerth

Mae'r pandemig wedi arwain at symudiad sydyn tuag i lawr yn ardal Castell-nedd Port Talbot gyda gostyngiad sylweddol mewn maint a gwerth. Yn benodol, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros. Mae'r patrwm yn llai amlwg yn achos ymwelwyr dydd, lle gwelwyd gostyngiad is yn 2020 ac adferiad cyflymach yn 2021 ac effaith economaidd lle cafwyd adferiad rhannol yn unig yn 2021 o'r gostyngiad a welwyd yn 2020. Bu gostyngiad sylweddol mewn lefelau cyflogaeth yn 2020 (i lawr mwy na thraean, sef -34%) a gwelwyd adferiad bach o ychydig dros 1% yn unig yn 2021. Er gwaetha'r cynnydd mewn gwyliau gartref, mae'r 2-3 blynedd diwethaf yn sicr wedi bod yn gyfnod masnachu anodd i'r rhan fwyaf o bartïon yn y sector twristiaeth. Yn y tymor byr iawn, bydd rhaid i'r sector twristiaeth ganolbwyntio ar gefnogi gwydnwch busnesau a meithrin twf yn y dyfodol unwaith bydd yr adferiad yn cyrraedd y lefelau a welwyd cyn y pandemig unwaith eto.

## Proffil ymwelwyr

Nododd Arolwg Ymwelwyr Castell-nedd Port Talbot 2022[1] fod 60% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod am fwynhau'r dirwedd, y cefn gwlad a'r traethau sydd gan y sir i'w cynnig, ac roedd hyn yn gynnydd sylweddol o'r 47% a ddywedodd hynny pan gynhaliwyd y gwaith ymchwil yn 2017. Y prif reswm dros ymweld â Chastell-nedd Port Talbot yn achos dau draean o'r ymwelwyr (65%) oedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu awyr agored (a oedd yn gynnydd bach o gymharu â 2017).

At ei gilydd, denodd Castell-nedd Port Talbot ymwelwyr ychydig yn hŷn yn 2022 o gymharu â 2017, gan fod cyfran y plant a'r ymwelwyr iau wedi gostwng ychydig yn 2022. Roedd cyfran yr ymwelwyr hŷn 55 oed a throsodd wedi cynyddu yn 2022 o gymharu â 2017. Roedd yr ymwelwyr yn tueddu i berthyn mwy i grwpiau sosio-economaidd ABC1 (67%) na grwpiau C2DE (33%), a oedd hefyd yn wir yn 2017; fodd bynnag, roedd cyfran yr ymwelwyr AB wedi dyblu ers 2017. Hefyd roedd bron chwarter yr ymwelwyr wedi dod â'r ci gyda nhw i Gastell-nedd Port Talbot.

Roedd dau draean (65%) o'r ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot yn 2022 yn dod o Gymru, tra bod bron traean (31%) yn dod o Loegr. 1% yn unig oedd yn dod o wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac roedd 3% arall yn ymwelwyr tramor. Ers 2017, gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr ymwelwyr oedd yn dod o Gymru a gostyngiad yng nghyfran yr ymwelwyr o Loegr. Fodd bynnag, roedd cyfran yr ymwelwyr tramor yn gyson â'r lefel cyn y pandemig (3%). Yn yr un modd ag yn 2017, roedd y gyfran uchaf o ymwelwyr o Gymru yn dod o ardal gymdogol Pen-y-bont ar Ogwr (25% o gymharu ag 20% yn 2017), wedi'i dilyn gan Abertawe (22% o gymharu â 19% yn 2017) a Rhondda Cynon Taf (17% o gymharu ag 16% yn 2017). Roedd bron tri chwarter yr ymwelwyr yn gyfarwydd â Chastell-nedd Port Talbot; roedd 73% yn ymwelwyr a oedd yn dychwelyd, gydag ychydig dros chwarter yn ymweld am y tro cyntaf.

1. Adroddiad Ymchwil, Castell-nedd Port Talbot, Arolwg Ymwelwyr 2022. Beaufort Research.

## Tueddiadau'r farchnad

Bydd angen i Gynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot ymateb i dueddiadau'r farchnad a'r newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, yn enwedig wrth i'r sector barhau i adfer yn dilyn y pandemig. Mae rhai o'r tueddiadau allweddol yn cynnwys:

- Lleoliaeth ac awydd i fwynhau profiadau dilys.
- Ymwybyddiaeth gynyddol o'r amgylchedd a diddordeb mewn dulliau teithio cynaliadwy sy'n gydnaws â'r amgylchedd.
- Teithiau sy'n croesawu anifeiliaid anwes.
- Twf gwyliau 'gweithio a chwarae'.
- Twf mewn gwyliau egnïol, sy'n gallu creu mannau poblogaidd dros ben a gorlawn.
- Mae gwerth yr arian yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis cyrchfan.
- Mae cysylltiad cyflym a dibynadwy â'r rhyngrwyd yn ddisgwyliedig ac archebu ar-lein yw'r norm bellach o ran tocynnau ar gyfer digwyddiadau, bordydd mewn bwytai ac ati. Mae hyn yn sbarduno newid o ddulliau marchnata printiedig i farchnata digidol .

## Y cyd-destun strategol a pholisi

**Ar lefel genedlaethol**, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi pedair sector 'sylfaenol' economi Cymru – twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal – gan gydnabod mai'r sectorau sylfaenol yw'r economi leol mewn rhai ardaloedd o Gymru. Mae'r pwyslais strategol yn canolbwyntio ar bum thema gydgysylltiedig, sydd i gyd yn bwysig i Gastell-nedd Port Talbot:

- Adferiad a chadernid.
- Sero Net a datgarboneiddio.
- Newid technoleg.
- Amgylchedd newidiol o ran buddsoddiad cyhoeddus.
- Recriwtio a chadw.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar nifer o feysydd polisi allweddol a allai effeithio ar y sector twristiaeth, er enghraifft, yr ardoll ymwelwyr posibl a'r cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr, y newidiadau i'r Ardrethi Busnes Annomestig (e.e. ar gyfer eiddo hunanarlwyo) a diwygio strwythur y flwyddyn ysgol. Mae'n ddyddiau cynnar o ran y newidiadau i'r tirlun polisi ond mae'n bwysig bod y CRhC yn ddigon hyblyg i allu addasu i'r cyd-destun polisi newydd.

Ar ben hynny, bydd angen i'r CRhC gyflawni rôl gadarnhaol o ran yr amcan strategol a bennwyd yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**, sef gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn ei saith nod llesiant. Un elfen allweddol yw'r ffocws ar **ddatblygu cynaliadwy**. O ran ei ddyluniad a'i gyflawniad, bydd angen i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan adlewyrchu agwedd gynaliadwy a chyfrifol at ddatblygu a marchnata cysylltiedig â thwristiaeth.

Uchelgais y **Cynllun Gweithredu Twristiaeth** cenedlaethol, **Croeso i Gymru** yw 'tyfu twristiaeth er budd Cymru', gan sicrhau budd i ymwelwyr a phobl leol trwy gydbwyso twf economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol, a buddiannau iechyd.

**Ar lefel ranbarthol**, mae'r CRhC yn adlewyrchu'r cyd-destun rhanbarthol, sy'n parhau i ddatblygu, gan gynnwys paratoi Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n adeiladu ar lwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn parhau i hyrwyddo tirwedd a phobl De-orllewin Cymru, gan gynnwys ei ffocws buddsoddi ar ddeuddeg Safle Porth.

**Ar lefel y Fwrdeistref Sirol**, mae cefnogi datblygiad yr economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd yn bendant â pholisïau lleol eraill. Mae **Cynllun Corfforaethol 2022-2027 – Adfer, Ailosod, Adnewyddu** yn cyflwyno gweledigaeth glir a chyfeiriad teithio er mwyn helpu adferiad, gan symud yn benodol tuag at y cyfnod 'ailosod ac adnewyddu' gyda phwyslais ar lesiant pobl ifanc, cymunedau llewyrchus, sicrhau bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau'r amgylchedd, y diwylliant a'r dreftadaeth lleol a bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad i swyddi gwyrdd o safon uchel.

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2011-2026** Castell-nedd Port Talbot yw'r ddogfen bolisi drosfwaol ar gyfer cynllunio yn y sir, ac mae'n disgrifio'r polisïau cynllunio a'r dyraniadau defnydd tir a fydd yn llywio dyfodol ardal y Fwrdeistref Sirol. Mae gweledigaeth y CDLl yn dweud, *'Bydd ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol a chymunedau'r cymoedd yn cael eu cynnal a'u hadfywio trwy annog gweithgaredd economaidd newydd a'i ehangu, a thrwy ddarparu ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy ar raddfa fach, yn cynnwys mentrau twristiaeth sy'n manteisio ar lwyddiannau eisoes, megis y cyrchfannau twristiaeth strategol ym Mharc Margam a Chwm Afan'*.

Mae'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) 2023-2036 wedi dechrau a chafwyd galwad am safleoedd ymgeisiol yn ystod haf 2022. Mae'n bwysig bod y CDLlA yn adlewyrchu'r uchelgais barhaus i sicrhau twf cynaliadwy yr economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, a dylid annog y sector i ymgysylltu â'r Cyngor er mwyn llywio'r cynllun i'r dyfodol. Wrth barhau i ddatblygu profiadau dilys, cynaliadwy i ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot, mae cyfle i gynhyrchu buddion economaidd a chymdeithasol ac ysgogi'r newid sylweddol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau trawsnewid gwirioneddol yn yr economi leol a'r economi ranbarthol ehangach. Mae'r her o hyfforddi, datblygu a chadw staff yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru yn parhau, a chydnabyddir hynny yng Nghastell-nedd Port Talbot hefyd.

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) yn cyflwyno gweledigaeth y Cyngor a'i ymrwymiadau o ran diogelu, cynnal a

gwella'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW), a mynediad ehangach i gefn gwlad, yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod darparu mynediad i gefn gwlad yn diwallu anghenion ei ddefnyddwyr, gan ddarparu buddion o ran iechyd a llesiant, twristiaeth a hamdden. Bydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio i gyflawni'r ROWIP yn rhan bwysig o gefnogi hamdden a thwristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot; sicrhau bod mynediad at gyrchfannau allweddol yn cael ei gynnal a'i hyrwyddo, a bod gweithgareddau hamdden sy'n dibynnu ar y rhwydwaith PROW yn gallu parhau a ffynnu.

Y nod wrth ddatblygu **Strategaeth Diwylliant Castell-nedd Port Talbot** yw cyfleu cryfderau ac ysbryd diwylliannol unigryw Castell-nedd Port Talbot. Mae'n bwysig bod y CRhC yn datblygu deilliannau a chynlluniau'r Strategaeth Diwylliant ac yn benodol amrywiaeth yr arlwy o ran celfyddydau, treftadaeth a diwylliant a gynigir i ymwelwyr a thrigolion lleol. Mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Diwylliant, y Strategaeth Treftadaeth a'r CRhC, sydd i gyd yn cefnogi ei gilydd.


Bydd **Strategaeth Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot 'Adfer, Adfywio, Addasu'** yn cyflwyno camau gweithredu a fydd yn sicrhau bod ein hasedau treftadaeth yn cael eu cadw, eu cynnal a'u rheoli mewn modd cynaliadwy, ochr yn ochr â mesurau sy'n gallu ychwanegu gwerth o ran llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o'n treftadaeth leol a'r angen am gynnal y grwpiau treftadaeth cymunedol sy'n chwarae rhan mor allweddol wrth ddiogelu ein hamgylchedd hanesyddol.

O dan **Reoliadau Safonau'r Gymraeg** (Rhif 1) 2015, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gydymffurfio â set o safonau ymddygiad yng nghyswllt y Gymraeg. Mae'r Safonau'n gofyn bod y Cyngor yn llunio ac yn cyhoeddi cynllun gweithredu, fel y manylir yn **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028**, i hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r iaith a nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. O safbwynt cyrchfan i ymwelwyr, mae'r Gymraeg yn creu ymdeimlad o le



sy'n gwneud Cymru yn wahanol i wledydd eraill. Bydd annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac integreiddio'r iaith wrth adrodd stori treftadaeth a diwylliant ein sir yn offeryn pwysig wrth ddatblygu'r ardal ymhellach fel cyrchfan i ymwelwyr.

Fel un o brif gryfderau arlwy twristiaeth y Fwrdeistref Sirol, mae gofalu am yr amgylchedd naturiol yn nod allweddol sy'n sylfaen i'r strategaeth hon. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod byd natur mewn argyfwng, gan gydnabod bod bodau dynol wedi achosi i fioamrywiaeth sylweddol gael ei golli. Ar lefel leol, mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) CNPT wedi cynnal asesiad o Gyflwr Byd Natur yn CNPT. Grwpiwyd cynefinoedd CNPT yn 11 categori cyffredinol (e.e. coetir, arfordir etc.), ac yn anffodus, dim ond dau o'r 11 categori yma o gynefinoedd a aseswyd fel rhai oedd yn cyflawni gwydnwch 'da' o ran yr ecosystem. Mae hynny'n golygu nad yw cynefinoedd ar draws CNPT yn ddigon cydnerth i ddelio â phwysau a galwadau megis y newid yn yr hinsawdd. Mae angen gweithredu nawr i wella cydnerthedd ecosystem ein cynefinoedd ar draws CNPT a sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn parhau'n ased i dwristiaeth yn y dyfodol. Mae **Cynllun Gweithredu Adferiad Byd Natur CNPT** yn darparu llwybr ar gyfer helpu'r amgylchedd naturiol yn CNPT, ac mae'r **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth** yn amlinellu sut mae CBSCNPT yn bwriadu cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau, gan gynnwys hybu twristiaeth gynaliadwy.





# Dadansoddiad SWOT

# 04

# 4.0 Dadansoddiad SWOT

Nodir isod ddadansoddiad o'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau (SWOT) allweddol sy'n gysylltiedig â chyrchfan Castell-nedd Port Talbot.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Natur, yr arfordir a diwydiant – gwrthgyferbyniad pendant.<br>• Tirwedd amrywiol: tirwedd naturiol, arfordir a chefn gwlad.<br>• Darpariaeth antur/gweithgareddau hirsefydlog (sy'n cynnwys Parc Coedwig Afan).<br>• Rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio, sy'n cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Sustrans.<br>• Chwaraeon dŵr di-fodur yn Aberafan.<br>• Amrywiaeth o asedau treftadaeth (er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd).<br>• Ymrwymiad ac uchelgais gwleidyddol cryf.<br>• Mynediad i farchnadoedd: safle ar goridor yr M4.<br>• Gwefan newydd a hunaniaeth brand i'r cyrchfan.<br>• Ymgyrch Balchder Bro a Marchnata Cyrchfannau 2023-2025.<br>• Wedi sicrhau cyllid gan y Llywodraeth (UKSPF a'r Gronfa Ffyniant Bro). | • Arosiadau cymharol fyr.<br>• Gwariant isel/marchnadoedd lleol.<br>• Diffyg llety o safon uchel ar hyn o bryd.<br>• Dewisiadau cyfyngedig pan fo'r tywydd yn wael.<br>• Proffil cyfyngedig yr arlwy treftadaeth.<br>• Cystadleuaeth gyfagos – e.e. Gŵyr, Bannau Brycheiniog (er bod hyn hefyd yn gyfle).<br>• Heb fod yn gyrchfan/gynnyrch unffurf.<br>• Yn gymharol anhysbys – nid yw'n gyrchfan amlwg.<br>• Y ddarpariaeth adnoddau ar gyfer twristiaeth yn anwastad.<br>• Ymgysylltiad cyfyngedig gan y sector preifat.<br>• Rhai heriau sosio-economaidd o ran y farchnad breswyl. |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| • Cyrchfan gudd/‘amgen’.<br>• Effaith drawsnewidiol buddsoddiad gan y sector preifat: Canolfan Wildfox (yn helaethu’r sylfaen llety yn sylweddol gyda nifer da o ymwelwyr ar hyd y flwyddyn).<br>• Cyflawni buddsoddiad yn yr arlwy treftadaeth adeiledig arloesol a rhyngweithiol ym Mharc Gwledig Ystad y Gnoll a safleoedd eraill, e.e. Mynachlog Nedd, Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, Parc Gwledig Margam ac ati.<br>• Cyflawni’r buddsoddiad o ran seilwaith ymwelwyr ym Mhontneddfechan, Gwlad y Sgydau.<br>• Ceisio cyllid i greu rhaglen strategol o ddigwyddiadau ar draws y Sir sy’n cyd-fynd â brand lle CNPT.<br>• Adfywio Castell Margam (camau cynnar prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) a chysylltiadau â’r cynnig treftadaeth ehangach yn yr ardal gyfagos a’r is-ranbarth ehangach.<br>• Rhoi camau gweithredu adfer byd natur ar waith i wella’r amgylchedd lleol a bioamrywiaeth. | • Amserlen anhysbys ar gyfer adfer twristiaeth yn y fwrdeistref sirol.<br>• Newidiadau rheoleiddiol yn y sector twristiaeth.<br>• Cynnydd unwaith eto mewn gwyliau tramor.<br>• Tuedd i ddibrisio Castell-nedd Port Talbot.<br>• Datblygu’r arlwy twristiaeth antur ymhellach yn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, e.e. Abertawe – parc antur Mynydd Cilfái a Zip World ar safle glofa’r Tŵr gynt (er y gallai hyn fod yn gyfle hefyd).<br>• Yr argyfwng costau byw parhaus a risg dirwasgiad posib. |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| • Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyfagos.<br>• Datblygu asedau/arlwy yr arfordir i gyd-fynd â'r gweithgareddau a gynigir (gan gynnwys strwythur rheoli newydd).<br>• Buddsoddi mewn gweithgareddau/rhaglenni diwylliannol a'r celfyddydau ar draws y fwrdeistref sirol.<br>• Yn amodol ar gyllid, cyfleoedd hirdymor yn gysylltiedig â chamlesi Tawe, Tenant a Nedd. | |



# Symud Ymlaen – Ein Blaenoriaethau

# 05

# 5.0 Symud Ymlaen – Ein Blaenoriaethau

**Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gyfle i ailosod blaenoriaethau er mwyn rhoi atebion arloesol ar waith i gefnogi twristiaeth leol a rhoi sylw i'n tair thema drawsbynciol:**

- Twristiaeth gyfrifol
- Twf cynhwysol
- Cydweithredu a phartneriaethau

Mae adborth gan ein busnesau a'n rhanddeiliaid yn dal i ddatgelu ansicrwydd am y dyfodol a'r angen llethol i ddatblygu gwydnwch a sefydlogrwydd.

Yn dilyn y pandemig, mae'r twf mewn twristiaeth ddomestig wedi lleddfu ychydig ar yr ergyd ac mae'r camau a gymerwyd ar fyrder yn genedlaethol ac yn lleol i adfer y sector a'i ailfywiogi wedi lleihau'r effaith ar swyddi a busnesau.

Fodd bynnag, mae'r economi ymwelwyr yn dal i wynebu nifer o heriau arwyddocaol. Rydym yn deall y bydd datblygu Castell-nedd Port Talbot fel brand a chyrchfan i ymwelwyr yn broses hirdymor a fydd yn gofyn am fuddsoddiad ac ymrwymiad parhaus.

Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad a sefydlogrwydd: cyflawni ein prosiectau catalydd a gwella ein hasedau unigryw a'n themâu sydd eisoes yn rhai o gryfderau Castell-nedd Port Talbot – ein diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog, ein harfordir a'n hardaloedd gwledig godidog – er mwyn cynnal a thyfu'r economi ymwelwyr.

Mae angen hefyd i ni amddiffyn apêl sylfaenol yr ardal – ei thirwedd a'i hamgylchedd hanesyddol – a bodloni anghenion ein trigolion.

Bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gwireddu'r weledigaeth trwy ganolbwyntio ar chwe phrif amcan:

1. **Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol**
   Creu, gwella a chefnogi mwy o gynhyrchion cynaliadwy i ymwelwyr yn rhan o'r daith tuag at Sero Net – cyfleusterau, antur awyr agored, treftadaeth, diwylliant, digwyddiadau a'r parth cyhoeddus – gan gynyddu ein hapêl at ymwelwyr sy'n aros ar draws y gyrchfan a lleihau amrywiadau tymhorol. Bydd y cynnyrch a'r gwasanaeth twristiaeth a ddatblygir yn estyn croeso cynnes i bob ymwelydd ac yn parchu eu hanghenion unigol.

2. **Trawsnewid ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o'r ardal**
   Ymestyn cwmpas a gafael brand 'Calon Ddramatig Cymru', a marchnata Castell-nedd Port Talbot trwy gydweithio mewn dull cyson, cydlynus gyda negeseuon clir y mae'r holl randdeiliaid yn eu deall ac yn eu hategu.

3. **Cefnogi busnesau a gweithlu llewyrchus**
   Dysgu gwersi'r ergydion economaidd allanol a meithrin gwydnwch busnesau yn yr economi ymwelwyr er mwyn iddynt fedru ymdopi yn well â chyfnodau masnachu anffafriol ac ailgodi ar ôl hynny. Croesawu buddsoddwyr newydd ac annog busnesau lleol i ailfuddsoddi yn yr hyn a gynigir ganddynt a recriwtio, hyfforddi a chadw eu gweithlu.

4. **Cymunedau bywiog**
   Cefnogi rôl allweddol cymunedau lletyol wrth ddarparu'r profiad twristiaeth ehangach, trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau ac yn y parth cyhoeddus fel elfen allweddol o sicrhau lleoedd llwyddiannus a llewyrchus. Cofleidio a dathlu diwylliant lleol ac ehangach Cymru fel rhan annatod o'r cynnig i dwristiaid, gan greu ymdeimlad dilys o le.

5. **Hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy**
   Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i wella cysylltiadau â'n cymoedd a'n cymunedau gwledig trwy hyrwyddo dewisiadau teithio llesol sy'n annog dulliau teithio cynaliadwy sy'n ystyried y blaned, yn yr economi ymwelwyr.

6. **Gweithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth**
   Creu llais cryf a chynrychioliadol i eiriol dros y sector twristiaeth fel partneriaid sy'n rheoli'r gyrchfan, gan wneud yn fawr o'n cryfderau presennol a llenwi'r bylchau sy'n bodoli. Datblygu dull effeithiol ac atebol o gyflawni'r cynllun hwn trwy waith partneriaeth pellach yn ardal Castell-nedd Port Talbot a'r tu hwnt.



# Cyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfan

# 06

# 6.0 Cyflawni'r Cynllun Rheoli Cyrchfan

## Grŵp Arweinyddiaeth Rheoli Cyrchfan (GARhC)

Mae CRhC Castell-nedd Port Talbot yn dangos y ffordd at adferiad parhaol a thwf yr economi ymwelwyr yn y tymor canolig yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni all economi ymwelwyr lwyddo os na fydd y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd a chyda'r cymunedau lleol. Bydd gofyn sicrhau arweinyddiaeth, consensws a phartneriaeth yn ogystal ag ymrwymo arian ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni'r CRhC.

Bydd y rôl arweiniol allweddol yn parhau yn nwylo Tîm Economi Ymwelwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ond mae'r CRhC yn berthnasol i'r holl sefydliadau sector cyhoeddus, sector preifat a sector gwirfoddol sy'n ymwneud â'r economi ymwelwyr ac nid oes gobaith i'r Cyngor ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Cefnogwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan blaenorol Castell-nedd Port Talbot gan Grŵp Llywio Strategol Rheoli Cyrchfan, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus a phreifat oedd â diddordeb mewn datblygu'r economi ymwelwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ar ben hynny, sefydlwyd amryw o grwpiau partneriaeth fesul cyrchfan ardal i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Grŵp Llywio Glan Môr Aberafan.
- Grŵp Rhanddeiliaid Rheoli Cyrchfan Parc Coedwig Afan.
- Grŵp Rhanddeiliaid Rheoli Cyrchfan Parc Margam.
- Gwlad y Sgydau/Bro Nedd, a reolir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Er bod nifer o lwyfannau yn bodoli eisoes ar gyfer ymgysylltu â busnesau twristiaeth yn y Fwrdeistref, i gefnogi rôl y Cyngor a sicrhau cefnogaeth ehangach i'r cynllun a'i flaenoriaethau, ei themâu a'i gamau gweithredu, rydym yn argymell adnewyddu'r Grŵp Llywio Rheoli Cyrchfan ar ffurf Grŵp Arweinyddiaeth Rheoli Cyrchfan (GARhC), a fydd yn brif gyfrwng ar gyfer estyn allan ac ymgysylltu â busnesau twristiaeth a phartneriaid ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Bydd rôl y Cyngor o ran rheoli cyrchfan, marchnata a'r gwaith hanfodol o neilltuo adnoddau a chyllid ar gyfer y CRhC yn parhau. Bydd GARhC yn ddolen gyswllt gydnabyddedig ar gyfer ymgysylltu â busnesau a phartneriaethau lleol er mwyn cefnogi dylunio a chyflawni'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth.

Y partneriaid fydd yn penderfynu ar gylch gorchwyl y grŵp ond mae'n debygol o gynnwys:

- Cyfrifoldeb strategol cyffredinol dros fonitro cyflawni'r CRhC.
- Darparu cymorth ac arweiniad ynghylch datblygu cynnyrch a'i farchnata.
- Bod yn llais cydlynus ar ran yr economi ymwelwyr.
- Mynegi a stiwardio'r 'naratif' i ymwelwyr a sicrhau synergedd â'r gweithgareddau creu lleoedd.


Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth yn cynnwys 10-12 o aelodau o'r sector, Cadeirydd annibynnol a chynrychiolwyr o bob rhan o sector yr economi ymwelwyr, gan gynnwys y gwahanol grwpiau partneriaeth lleol sy'n bodoli. Bydd angen ystyried lle'r GARhC yn y teulu o bartneriaethau sector cyhoeddus a sector preifat yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan roi ystyriaeth benodol i berthynas y grŵp â'r gwaith buddsoddi a chreu lleoedd yn y fwrdeistref.

## Rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae adnoddau cyfyngedig ar lefel y gyrchfan yn golygu bod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn cynyddu fwyfwy. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, bydd CBS Castell-nedd Port Talbot yn dal i chwarae rôl weithredol o ran datblygu'r cynnyrch i ymwelwyr yn ogystal â marchnata a hyrwyddo'r fwrdeistref. Mae Tîm yr Economi Ymwelwyr yn fach (dwy swydd CALl barhaol). Ar y cyd ag adrannau eraill o'r Cyngor, bydd y tîm yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod cyllid allanol, gan gynnwys rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro i Fro Nedd yn cael eu gwario mewn modd effeithiol ac effeithlon. Yn wir, weithiau gall sicrhau cyllid cyfalaf fod yn haws nag ariannu manylion ymarferol hyrwyddo a rheoli cyrchfan.

Bydd angen ystyried i ba raddau y gall Tîm yr Economi Ymwelwyr barhau i chwarae rôl arweiniol wrth hwyluso'r gwahanol grwpiau rhanddeiliaid a nodwyd. Deellir bod ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector yn waith pwysig o ran amlygu blaenoriaethau a gwireddu dyheadau'r rhanddeiliaid mewn partneriaeth â'r sector, ond ar hyn o bryd, nid oes digon o adnoddau yn Nhîm yr Economi Ymwelwyr i ddarparu'r cymorth hwn.

Y ffocws pennaf yw sicrhau bod adnoddau ar gael i hyrwyddo'r agenda Rheoli Cyrchfan yn yr ardal. Bydd angen datblygu cynllun adnoddau a staffio diwygiedig gan gymryd i ystyriaeth y cyfrifoldebau ychwanegol a bennwyd yn y CRhC o ran datblygu cynnyrch, digwyddiadau, marchnata a chydlynu.



# Cynllun Gweithredu 2023 – 2028

# 07

# 7.0 Cynllun Gweithredu 2023 – 2028

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn disgrifio pecyn o gamau gweithredu cydlynus er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol a nodwyd uchod. Byddant yn cefnogi adferiad yr economi ymwelwyr a thwf cynaliadwy wedi hynny – er budd busnesau twristiaeth, cymunedau lletyol a'r amgylchedd.

Ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar ei ben ei hun. Mae angen gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector, a chymunedau lleol.

## Prosiectau catalydd

Mae nifer o brosiectau catalydd twristiaeth, sydd i gyd wedi'u datblygu i raddau gwahanol, ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot, a byddant yn sbarduno adferiad a thwf yr economi ymwelwyr.

**Pan fydd y prosiectau hyn wedi'u cyflawni, byddant yn newid sylfaen a phroffil twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol a hefyd yn sicrhau manteision o safbwynt lluosydd economaidd, cyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi.**

# Y canlynol yw'r prif brosiectau trawsnewid:

## Prosiect o dan arweiniad y sector preifat

### i. Canolfan Wildfox

Yng Nghwm Afan, cafwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu cyrchfan antur sylweddol, gwerth £400m a fydd yn cwmpasu mwy na 550 o gabanau, gwesty, gwesty rhandai, darpariaeth bwyd a diod, ynghyd â chyfleusterau hamdden ategol.

**Cam Gweithredu (Prosiect Catalydd Un):** Cydweithio agos rhwng CBSCNPT a gweithredwr y prosiect trwy'r camau adeiladu a gweithredu. Sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn i'r cymunedau lleol elwa yn sgîl y rhaglen fuddsoddi hon.

## Prosiectau o dan arweiniad partneriaeth

### ii. Datblygu Parc Coedwig Afan yn y dyfodol

Mae cynllun datblygu terfynol yn cael ei baratoi i wella'r arlwy i ymwelwyr ym Mharc Coedwig Afan a'i helpu i adennill ei statws fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer beicio mynydd. Mae gofyn parhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i sicrhau buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn datblygu Parc Coedwig Afan yn gyrchfan allweddol ar gyfer beicio mynydd a gweithgareddau hamdden awyr agored.

### iii. Fframwaith Coridor Treftadaeth Bro Nedd

Mae'r fframwaith yn disgrifio ystod o ymyriadau i gefnogi datblygiad yr arlwy twristiaeth ym Mro Nedd. Mae ffocws ar weithio mewn partneriaeth i ddarparu cynhyrchion newydd, gwella'r safleoedd presennol i ymwelwyr a chefnogi gweithgareddau marchnata.

Hyd yn hyn, mae CBSCNPT wedi sicrhau cyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro i gyflawni dau o'r prosiectau allweddol, sef cynllun Seilwaith Porth Ymwelwyr Gwlad y Sgydau a gwella profiadau ymwelwyr trwy gynllun Seilwaith Treftadaeth ac Ymwelwyr Parc Gwledig Ystâd y Gnoll.

**Cam Gweithredu (Prosiectau Catalydd Dau a Thri):**
Sicrhau cyllid a datblygu partneriaeth a fydd yn caniatáu cyflawni'r prosiectau hyn yn effeithiol.

# Prosiectau o dan arweiniad Castell-nedd Port Talbot

## iv. Cynllun Seilwaith Ymwelwyr Gwlad y Sgydau

Er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â'r nifer cynyddol o ymwelwyr â Gwlad y Sgydau a darparu cyfleoedd cyflogaeth gwledig, mae porth i ymwelwyr a chanolbwynt cymunedol yn cael ei ddatblygu ym Mhontneddfechan. Mae'r prosiect yn cwmpasu llety o ansawdd uchel i ymwelwyr, siop fferm/gymunedol a lle parcio i geir ochr yn ochr â seilwaith ymwelwyr ategol. Sicrhawyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro.

## v. Parc Gwledig Ystâd y Gnoll

Sicrhawyd mwy na £12m i weddnewid profiad ymwelwyr â Pharc Gwledig Ystâd y Gnoll. Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar wella'r ganolfan ymwelwyr bresennol, sicrhau gwell mynediad at dreftadaeth gyfoethog y parc gwledig, cyflwyno llety hunanarlwyo ar y safle ac uwchraddio'r seilwaith ymwelwyr ategol, megis parcio. Sicrhawyd cyllid o'r Gronfa Ffyniant Bro.

## vi. Adfywio Castell Margam a'r Parc Gwledig

Ar hyn o bryd, mae dewisiadau'n cael eu hystyried fel rhan o brosiect a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) i adfywio Castell Margam, adeilad rhestredig Gradd I nodweddiadol (ym Mharc Gwledig Margam) er mwyn cynnig profiad seiliedig ar dreftadaeth i ymwelwyr, gan gynnig addysg a'r posibilrwydd o lety i ymwelwyr. Mae angen parhau i ddatblygu'r achos busnes er mwyn paratoi cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllidwyr eraill.

Bwriedir archwilio cyfleoedd pellach i ddatblygu'r parc gwledig ehangach er mwyn gwella profiad ymwelwyr a denu rhagor o ymwelwyr.

## vii. Strategaeth Glan Môr Aberafan

Bydd Strategaeth Glan Môr Aberafan sydd ar ddod yn llywio buddsoddiad yn yr ardal lan môr a'i datblygiad yn y dyfodol. Bydd y cynllun yn archwilio'r ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth bosib yn y dyfodol o ran datblygu Glan Môr Aberafan fel cyrchfan hamdden.

Bydd canlyniad y strategaeth hon yn cyfrannu at gamau gweithredu a gaiff eu cynnwys yn y CRhC yn y dyfodol mewn perthynas â Glan Môr Aberafan.

**Cam Gweithredu (Prosiectau Catalydd Pedwar i Saith):** Sicrhau bod adnoddau cefnogi a rheoli prosiect digonol gan CBSCNPT i hyrwyddo a chyflawni'r cynlluniau trawsnewid yn y tymor byr iawn (a bod cyllid wedi'i sicrhau i adfywio Castell Margam).

**Mae potensial i bob prosiect unigol wneud gwahaniaeth cadarnhaol gwirioneddol i'r sector twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol, ond, o'u cyfuno mewn 'pecyn o ymyriadau', gallent drawsnewid proffil marchnad Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i dwristiaid a'r profiad twristiaeth ei hun.**

# Cynllun Gweithredu 2023 – 2028

Llywiwyd datblygiad cynllun gweithredu 2023 – 2028 gan y canlynol:

- Ymgysylltu helaeth gan gynnwys pedwar gweithdy, arolygon ar-lein ar gyfer ymgysylltu a'r Aelodau a busnesau twristiaeth ac ymgynghori un-i-un gyda rhanddeiliaid unigol.
- Asesiad o'r farchnad a gwaith ymchwil ehangach.
- Ymweliadau safle.
- Arfer gorau.

**Fframwaith y Cynllun Gweithredu**

- **Nodau/amcanion:**

  **01.** Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol.

  **02.** Trawsnewid ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o'r ardal.

  **03.** Cefnogi busnesau a gweithlu llewyrchus.

  **04.** Cymunedau bywiog.

  **05.** Hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy.

  **06.** Gweithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth.

- **Amserlen ddangosol:**
  - **Byrdymor** o fewn 12 mis.
  - **Tymor canolig** blynyddoedd 2 – 3.
  - **Hirdymor** blynyddoedd 4 – 5.

# Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol

Cefnogi a denu buddsoddiad i ddatblygu cynhyrchion a phrofiadau twristiaeth cynaliadwy a chyson, o ansawdd uchel, er mwyn creu rhesymau cymhellol dros ymweld â Chastell-nedd Port Talbot ac annog cyfran fwy o arosiadau dros nos. Sicrhau bod yr ymyriadau newydd yn cyd-fynd â brand lle Calon Ddramatig Cymru.

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu'r digwyddiadau a gynigir er mwyn rhoi sylw i natur dymhorol y sector a denu segmentau newydd o'r farchnad. | • Datblygu Cynllun Gweithredu Digwyddiadau i gefnogi cyflawni digwyddiadau a gyllidir trwy UKSPF yn llwyddiannus yn ystod y ddwy flynedd nesaf. | CBSCNPT (gyda mewnbwn gan CNC) | O1, O2, O3, O4, O5. | Byrdymor/ tymor canolig |
| | • Croesawu ras Tour of Britain 2023 a chynnal Eisteddfod yr Urdd 2025 yn llwyddiannus ym Mharc Gwledig Margam er mwyn codi proffil Castell-nedd Port Talbot fel man cynnal digwyddiadau pwysig. | CBSCNPT | O1, O2, O3, O4, O5. | Byrdymor/ tymor canolig |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu'r digwyddiadau a gynigir er mwyn rhoi sylw i natur dymhorol y sector a denu segmentau newydd o'r farchnad. | • Denu, datblygu a chyflawni rhaglen o ddigwyddiadau nodweddiadol thematig ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll, Parc Gwledig Margam a 'safleoedd' eraill (e.e. safleoedd a reolir gan eraill, gan gynnwys y sector preifat a CNC), er enghraifft:<br>· Treftadaeth a diwylliant.<br>· Antur a gweithgareddau (ar y tir ac ar y dŵr) e.e. digwyddiad beicio mynydd goriwaered, o bwys cenedlaethol, ar dir CNC ym Mro Nedd.<br>· Bwyd a diod.<br>• Sicrhau seilwaith ategol digonol mewn mannau cynnal awyr agored allweddol (er mwyn gallu cynnal digwyddiadau ar raddfa fawr ac eraill). | CBSCNPT (gyda mewnbwn gan CNC) | O1, O2, O3, O4, O5. | Byrdymor/ tymor canolig |
| | • Creu tîm Digwyddiadau yn y Cyngor i gydlynu cyflawni'r Cynllun Gweithredu Digwyddiadau a digwyddiadau ar draws y fwrdeistref sirol. | CBSCNPT | O3, O6. | Byrdymor |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Gwella ansawdd a swm y llety i ymwelwyr. | • Creu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer buddsoddi mewn llety i ymwelwyr. | CBSCNPT/ Sector preifat | O1, O3, O6. | Tymor canolig |
| | • Annog datblygu profiadau llety creadigol newydd, er enghraifft trwy adeiladu ar y cynllun i gyflwyno mannau gwefru faniau gwersylla a threialu 'aires' mewn mannau strategol yn y sir. | CBSCNPT | O1, O2, O6. | Byrdymor |
| | • Gweithio gyda darparwyr llety presennol i wella ansawdd eu stoc gwelyau trwy gynlluniau graddio ac achredu. | CBSCNPT | O1, O6. | Tymor canolig |
| | • Cyflawni cynigion llety fel rhan o brosiectau a ariannir trwy'r Gronfa Ffyniant Bro ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll a Phontneddfechan, Gwlad y Sgydau. | CBSCNPT | O1, O2, O6. | Byrdymor |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Denu buddsoddiad gan y sector preifat yn y sector twristiaeth. | • Ailedrych ar y safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor ac eraill, y gellid eu defnyddio ar gyfer twristiaeth, megis parc carafanau, paratoi prosbectws buddsoddi a'i gyflwyno i'r farchnad. | CBSCNPT | O1, O2, O3, O6. | Byrdymor |
| | • Parhau i gynnig cyngor a chymorth i gefnogi cynigion buddsoddi helaeth yng Nghanolfan Wildfox yng Nghwm Afan (yn amodol ar fewnbwn Cynllunio). | CBSCNPT mewn partneriaeth â'r sector preifat | O1, O2, O6. | Hirdymor |
| | • Parhau i gynnig cyngor a chymorth i gefnogi cynigion i fuddsoddi'n sylweddol mewn twristiaeth ym Mhwll y Dwyrain, Tairgwaith (yn amodol ar fewnbwn Cynllunio). | CBSCNPT mewn partneriaeth â'r sector preifat | O1, O2, O6. | Hirdymor |
| | • Parhau i gynnig cyngor a chymorth i gefnogi cynigion i fuddsoddi'n sylweddol mewn twristiaeth ar Ystâd Rheola, Bro Nedd (yn amodol ar fewnbwn Cynllunio). | CBSCNPT mewn partneriaeth â'r sector preifat | O1, O2, O3. | Hirdymor |

| **Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu a hyrwyddo'r arlwy antur a hamdden awyr agored cynaliadwy. | • Cefnogi datblygu cynhyrchion/profiadau ar y dŵr (gan adeiladu ar y defnydd o'r dŵr ar Gamlas Nedd ger Bwthyn Tŷ Banc, ger Resolfen, Antur Margam ym Mharc Gwledig Margam ac Ysgol Syrffio Cymru ar draeth Aberafan). | CBSCNPT | O1, O2, O6. | Tymor canolig |
| | • Archwilio'r dewisiadau ar gyfer twristiaeth natur a bywyd gwyllt (yn enwedig yn sgîl diddordeb cynyddol pobl yn yr amgylchedd, argyfyngau'r hinsawdd a bioamrywiaeth a phrosiect y Mawndiroedd Coll). | CBSCNPT | O1, O2, O6. | Hirdymor |
| | • Parhau i archwilio dichonoldeb datblygu/ailddechrau defnyddio Camlas Nedd a Chamlas Tenant ar gyfer twristiaeth a hamdden. | CBSCNPT | O1, O4, O5, O6. | Tymor canolig |
| | • Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu Geoparc Fforest Fawr yn y sir – gweithio'n agos gyda Bannau Brycheiniog yng nghyswllt y Geoparc yn gyffredinol. | CBSCNPT/ Geoparc/ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | O4, O6. | Tymor canolig |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Creu glan môr fywiog yn Aberafan. | Datblygu gweledigaeth a phrif gynllun ar gyfer Glan Môr Aberafan – gan greu cynnig cydlynus trwy amrywiaeth o brosiectau / ymyriadau, e.e.:<br><br>• Buddsoddi yn y parth cyhoeddus ar lan y môr ynghyd â diweddaru'r wybodaeth a'r arwyddion a ddarperir (ar lan y môr ac o'r M4).<br>• Arbrofi/treialu cyflwyno cabanau symudol ar lan y môr i ddarparu bwyd tymhorol o ansawdd uchel.<br>• Cefnogi gweithgareddau chwaraeon dŵr difodur yn Aberafan i ategu'r hyn a gynigir ym Mharc Coedwig Afan a Gwlad y Sgydau.<br>• Canfod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth barcio newydd ac archwilio dewisiadau ar gyfer cryfhau'r parcio i geir ar lan y môr er mwyn rheoli'r adegau prysur a'r adegau tawel yn well.<br>• Defnyddio rhyngrwyd pethau (IoT) a thechnoleg geo-ofodol (mapio) i gynhyrchu data amser go iawn ynghylch prysurdeb, a allai roi gwybod am leoedd gwag ym meysydd parcio allweddol Glan Môr Aberafan a darparu negeseuon newidiol ar ochr y ffordd i hyrwyddo cynllun parcio a theithio amgen. | CBSCNPT | O1, O2, O3, O4, O6. | Byrdymor/ tymor canolig |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu'r farchnad treftadaeth a diwylliant. | • Datblygu Cynllun Gweithredu i gyflawni Strategaeth Coridor Treftadaeth Bro Nedd a'i roi ar waith. Yn ogystal, nodi prosiectau â blaenoriaeth, e.e. (a) gweithio mewn partneriaeth â Cadw i sicrhau buddsoddiad ym Mynachlog Nedd ynghyd â Gwaith Haearn Mynachlog Nedd, (b) archwilio'r posibilrwydd o wella'r cyfleusterau i ymwelwyr a pharcio ceir ym Melin-cwrt, (c) gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar safle Rhaeadr Aberdulais i sicrhau bod y safle'n gwbl weithredol unwaith eto. | CBSCNPT a Phartneriaid | O1, O2, O4, O6. | Tymor canolig |
| | • Sicrhau bod y Strategaeth Diwylliant yn cyd-fynd yn union â'r CRhC er mwyn cefnogi themâu a mentrau allweddol. | CBSCNPT | O6. | Byrdymor |
| | • Hyrwyddo arlwy celfyddydau a diwylliant newydd sy'n dod i'r amlwg trwy'r Strategaeth Diwylliant er mwyn ychwanegu at apêl Castell-nedd Port Talbot i segmentau ehangach o'r farchnad. | CBSCNPT | O1, 02. | Tymor canolig |
| | • Cefnogi'r cynigion sy'n dod i'r amlwg i adfywio Castell Margam, a allai ganolbwyntio mwy ar dwristiaeth (gan gynnwys y posibilrwydd o agor llety i ymwelwyr yn y castell ei hun). | CBSCNPT | O1, O2, O6. | Tymor canolig/ Hirdymor |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu'r bwyd a gynigir – cyfle sy'n dod i'r amlwg. | • Adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd, meithrin datblygiad y 'sîn fwyd' yn lleol (a fydd o gymorth wrth ddenu ymwelwyr sy'n aros ac ymwelwyr newydd). | CBSCNPT | O1, O2, O3, O4, O6. | Tymor canolig |
| Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. | • Darparu hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid i bobl sy'n gweithio ar draws y sector twristiaeth er mwyn cyflwyno gwasanaethau cyson o safon uchel i bob ymwelydd â Chastell-nedd Port Talbot. Bydd hyn yn cydredeg â'r buddsoddiad yn y cynnyrch twristiaeth. | CBSCNPT/ sector preifat | O3, O4, O6. | Byrdymor |
| Creu cyrchfan hygyrch. | • Sicrhau buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu seilwaith twristiaeth hygyrch. Er enghraifft, darparu ar gyfer grwpiau o ymwelwyr o sawl cenhedlaeth, profiadau synhwyraidd, llwybrau hygyrch, cyfleusterau Mannau Newid (Changing Places), chwarae hygyrch ac ati. | CBSCNPT | O1, O2, O4, O5, O6. | Tymor canolig |

| Datblygu cyrchfan unigryw a chyfrifol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Sicrhau bod pob prosiect arfaethedig yn integreiddio ymdeimlad o le er mwyn newid canfyddiadau o Gastell-nedd Port Talbot a meithrin balchder bro. | • Sicrhau bod yr holl negeseuon a'r prosiectau a ddatblygir gan y Cyngor a phrosiectau partneriaeth yn integreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru.<br>• Cynghori rhanddeiliaid a busnesau yn y sector twristiaeth ar sut i integreiddio'r Gymraeg ac ymdeimlad o le yn eu gweithgareddau hwythau.<br>• Cyflawni'r Ymgyrch Marchnata Cyrchfan a Balchder Bro a ariannir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.<br>• Parhau i integreiddio brand lle Castell-nedd Port Talbot gyda gweithgareddau marchnata a datblygu seiliedig ar leoedd ar draws y Cyngor. | CBSCNPT | O1, O2, O3, O4. | Byrdymor/ tymor canolig |

# Trawsnewid ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o Gastell-nedd Port Talbot fel cyrchfan amgen

Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan amgen o safon uchel i farchnadoedd targed yr ardal a'r ardaloedd daearyddol sy'n flaenoriaeth.

| Trawsnewid ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o Gastell-nedd Port Talbot fel cyrchfan amgen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Codi proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan amgen i ymwelwyr ar hyd y flwyddyn. | • Cyflawni ymgyrch farchnata'r gyrchfan gan ddefnyddio brand cyrchfan 'Calon Ddramatig Cymru'. | CBSCNPT | O1, O2, O3, O6. | Byrdymor |
| | • Cryfhau'r cydweithio ag ardaloedd cyfagos i greu profiadau is-ranbarthol sy'n arddangos brand y lle ac yn cysylltu ag arlwy gweithgareddau, treftadaeth a diwylliant amlycaf yr ardal. | CBSCNPT | O6. | Tymor canolig |
| | • Sicrhau bod data'n parhau i gael ei gasglu er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd. | CBSCNPT | O2, O6. | Byrdymor |
| Newid canfyddiadau o Gastell-nedd Port Talbot fel lle i fyw a gweithio ynddo. | • Cyflawni ymgyrch farchnata Balchder Bro. | CBSCNPT | O2, O6. | Byrdymor |

# Cefnogi busnesau llewyrchus

Ailgodi diwydiant mwy arloesol a chryfach er mwyn adennill ein safle yn y farchnad a chyflymu twf yn y tymor canolig a'r hirdymor.

| **Cefnogi busnesau llewyrchus** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Sicrhau mwy o ymgysylltiad ac ymrwymiad gan y diwydiant twristiaeth. | • Sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu rheolaidd â phartneriaid yn y diwydiant (e.e. y data diweddaraf am y farchnad, cyflawni prosiectau ac ati).<br>• Cyflwyno Uwchgynhadledd Twristiaeth flynyddol Castell-nedd Port Talbot. | CBSCNPT | O3, O6. | Tymor canolig |
| Annog busnesau i fanteisio ar y cyngor/cymorth a gynigir gan CBSCNPT. | • Sicrhau bod busnesau twristiaeth yn ymwybodol o'r cymorth a'r cyngor busnes a ddarperir gan CBSCNPT ac yn gallu cael mynediad atynt. | CBSCNPT | O6. | Byrdymor |

| Cefnogi busnesau llewyrchus | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu cyfres o becynnau cymorth i gefnogi'r diwydiant. | • Paratoi Pecyn Cymorth ar gyfer Entrepreneuriaid Twristiaeth i gefnogi cychwyn busnesau twristiaeth newydd – gan ychwanegu'n gadarnhaol at y cynnig twristiaeth.<br>• Adnewyddu'r 'Pecyn Cymorth Gwyrdd' i gefnogi busnesau twristiaeth i ddod yn gynaliadwy a symud tuag at Sero Net.<br>• Datblygu pecyn cymorth hygyrchedd er mwyn annog busnesau i osod 'hygyrchedd' wrth wraidd yr hyn a gynigir ganddynt a phrofiad y cwsmer. | CBSCNPT | O6. | Byrdymor |
| Darparu data cyfredol[2]. | • Parhau i gasglu data am y stoc o welyau, nifer yr ymwelwyr â safleoedd penodol a chomisiynu adroddiadau STEAM blynyddol ochr yn ochr â data ad-hoc ynghylch beth sy'n ysgogi ymweliadau, lefelau gwariant, effaith digwyddiadau etc.<br>• Sefydlu rhaglen i gasglu data blynyddol ynghylch defnydd o welyau er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y Cyngor a'r broses o wneud penderfyniadau. | CBSCNPT | O3, O6. | Tymor canolig |
| | • Lledaenu'r data i fusnesau yn y sector twristiaeth ac eraill sydd â diddordeb mewn datblygu economaidd (gallai fod yn rhan greiddiol o'r uwchgynhadledd twristiaeth flynyddol). | CBSCNPT | O3, O6. | Tymor canolig |

2. Bydd y sylfaen dystiolaeth empirig hon hefyd yn helpu i ddangos pwysigrwydd y sector twristiaeth i'r holl randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb, ac yn galluogi busnesau twristiaeth i ymateb i'r tueddiadau diweddaraf yn y farchnad a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth. Gellir ei defnyddio hefyd i gefnogi cynigion am gyllid yn y dyfodol.

# Cymunedau bywiog

Mae busnesau lleol a cymunedau lletyol bywiog yn rhan ganolog o'r profiad twristiaeth ar draws y fwrdeistref sirol. Fodd bynnag ni fydd cymunedau lletyol o reidrwydd yn elwa yn sgîl nifer cynyddol o ymwelwyr a gallant ddioddef o ganlyniad i'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr.  Mae angen cydbwyso gofynion ymwelwyr a chymunedau.

| **Cymunedau bywiog** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Lleiafu'r effaith ar gymunedau lletyol. | • Nodi'r mannau twristiaeth mwyaf poblogaidd a chreu cynlluniau i leiafu'r effeithiau negyddol a mwyafu effeithiau cadarnhaol twristiaeth ar gymunedau lletyol. | CBSCNPT | O4. | Byrdymor |
| | • Sicrhau ymgysylltu cymunedol priodol ynghylch prosiectau datblygu yn y dyfodol | CBSCNPT | O4, O6. | Parhaus |
| Gwella'r parth cyhoeddus. | • Defnyddio'r Gronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi a ffynonellau cyllid eraill i gefnogi buddsoddiad yn y parth cyhoeddus er mwyn helpu i greu naws fywiog a chroesawgar, e.e. adnewyddu mannau cyhoeddus allweddol, defnyddio digwyddiadau ar raddfa fach, ailddefnyddio ffenestri blaen siopau gwag. | CBSCNPT | O2, O4, O6. | Hirdymor |
| Gwneud y pethau sylfaenol yn gywir. | • Cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth cyfleusterau cyhoeddus, arwyddion, dynodi llwybrau, dehongli a pharcio ceir – y cyfleusterau hyn yn aml yw'r cyswllt cyntaf i ymwelwyr sy'n cyrraedd. Uwchraddio lle bydd angen a chyflwyno cyfleusterau ategol newydd lle gwelir bod galw amdanynt[3]. | CBSCNPT | O2, O3, O4, O6. | Byrdymor |

3. Mae'n bosib y bydd modd ariannu rhai prosiectau trwy'r Gronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi (UKSPF).

# Gwella cysylltedd a theithio llesol

Y car yw'r prif ddull a ddefnyddir gan ymwelwyr i deithio i'r fwrdeistref sirol a mynd o amgylch yno. Mae angen gweithredu i hyrwyddo ac annog ymwelwyr i deithio o gwmpas y fwrdeistref sirol mewn modd mwy cynaliadwy.

| Gwella cysylltedd a theithio llesol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | | **Arweinydd** | **Nodau** | **Amserlen** |
| Datblygu amserlenni teithio sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus. | • Gweithio'n agos gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i ddatblygu cynigion integredig i ymwelwyr ar ffurf amserlenni teithio cysylltiedig. | CBSCNPT | O5, O6. | Tymor canolig |
| Annog pobl i gerdded a beicio. | • Cefnogi buddsoddiad mewn prosiectau teithio llesol o dan y Gronfa Ffyniant Cymoedd a Phentrefi a mentrau cyllido eraill. | CBSCNPT | O5, O6. | Tymor canolig |
| | • Sicrhau bod trefn ariannu ar waith i gefnogi cynnal a chadw llwybrau yn barhaus, e.e. ym Mharc Coedwig Afan a llwybrau ehangach yng Ngwlad y Sgydau (sy'n elfen allweddol o'r cynnig i dwristiaid yn y fwrdeistref sirol). | CBSCNPT | O2, O5, O6. | Tymor canolig |
| | • Ffurfioli llwybr 'brand' o Lan Môr Aberafan i Lyncorrwg (i gefnogi cynnyrch 'O'r Cymoedd i'r Arfordir'). | CBSCNPT | O1, O4, O5, O6. | Byrdymor |

| Gwella cysylltedd a theithio llesol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Camau Gweithredu | | Arweinydd | Nodau | Amserlen |
| | • Archwilio dewisiadau i hwyluso cefnogi seilwaith a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r twf yn y defnydd o e-feiciau. | CBSCNPT | O1, O5, O6. | Tymor canolig |
| | • Archwilio dewisiadau ar gyfer llwybr oddi ar y ffordd i gysylltu Canolfan Wildfox a Chanolfan Ymwelwyr Parc Coedwig Afan. | CBSCNPT | O1, O4, O5, O6. | Tymor canolig |
| | • Archwilio dewis a fydd yn gwella cysylltiadau cerdded a beicio rhwng gorsaf reilffordd y brif lein ym Mhort Talbot a Glan Môr Aberafan. | CBSCNPT | O1, O4, O5, O6. | Tymor canolig |

